Comisiwn **Seilwaith** Cenedlaethol **Cymru**
National **Infrastructure** Commission **Wales**

Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru
**Future Generations** Commissioner for Wales

Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
SeneddHinsawdd@senedd.cymru

31 Gorffenaf 2023

Annwyl Cadeirydd

**Bil Seilwaith (Cymru) – Ymgynghoriad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith**

Diolch am y cyfle i roi sylwadau ar y Bil Seilwaith (Cymru) drafft. Rydym wedi achub ar y cyfle i lunio ymateb ar y cyd sy'n ymgorffori awgrymiadau gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru.

Credwn fod y prif gysyniad sy'n sail i'r rhesymeg dros y Bil yn gadarn, sef yr angen i symleiddio a chyflymu'r broses o ddatblygu prosiectau, tra'n gwella tryloywder a gallu rhanddeiliaid a sefydliadau cymunedol i graffu ar brosiectau seilwaith mawr.

Mae manteision ychwanegol gostyngiad yn y gost o weinyddu'r broses gynllunio seilwaith yn rhoi cyfle i ailgylchu'r arbedion hynny i'r system gynllunio. Dylid achub ar y cyfle hwn; mae ein hymgysylltiad â'r sector cynllunio yn ein harwain i ddeall bod llawer o gydrannau'r system yn brin o adnoddau ar hyn o bryd. Byddem yn croesawu craffu pellach gan y pwyllgor ar y mater hwn.

O ran agweddau y credwn y gallent wella dealltwriaeth a chyfathrebu ynghylch y Bil, rydym yn awgrymu y gallai Llywodraeth Cymru achub ar y cyfle i ddisgrifio ei gweledigaeth ar gyfer seilwaith yn y tymor hir yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er gwaethaf y ffaith bod llawer o ysgogiadau ar gyfer newid ar hyn o bryd y tu allan i gymhwysedd datganoledig Cymru, gallai'r Bil gyfeirio'n benodol at y gofynion hirdymor ar gyfer Cymru sy'n dibynnu ar seilwaith cadarn, gwydn sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gan helpu i bwysleisio bod y ddeddfwriaeth wedi'i gwreiddio yn Ffyrdd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a bod yn rhaid iddi anelu at helpu i gyflawni'r nodau cenedlaethol.

Nododd adolygiad Adran 20 a gynhaliwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn 2022 fwlch gweithredu wedi'i ategu gan ddiffyg gallu a dealltwriaeth o sut y dylid cymhwyso Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn briodol wrth wneud penderfyniadau. Mae hyn hefyd wedi dod i'r amlwg yn y rhaglen waith bresennol i gasglu barn ar raglen waith flaenoriaethol y Comisiynydd newydd.

Enghraifft o hyn yw'r farn bod penderfyniadau cynllunio yn canolbwyntio'n fwy ar lesiant economaidd ar draul y tri dimensiwn arall o lesiant o dan y Ddeddf. Rydym yn awgrymu, felly, bod y Bil yn gyfle i fynd i'r afael â'r bwlch hwn mewn gweithredu ar wyneb y Bil ac mewn

is-ddeddfwriaeth. Mae cynnwys y bobl yr effeithir arnynt gan y penderfyniadau hefyd yn rhan bwysig o'r Ddeddf Llesiant a dylid gwneud hyn yn glir.

Mae cyfranogiad wedi dod i'r amlwg fel un o'r ffyrdd lleiaf cymhwysol o weithio. Mae cynnwys pobl – y tu hwnt i ymgynghoriadau yn unig – wrth lunio eu cymunedau a'u lleoedd yn agwedd allweddol, y gall y broses gynllunio gyfrannu at y Ddeddf drwyddi. Hoffem weld pwysigrwydd cynnwys pobl mewn cynllunio yn cael ei amlygu a'i gryfhau drwy'r Bil ac unrhyw offerynnau statudol sy'n cyd-fynd ag ef.

Hefyd ar y thema o fod yn flaengar, byddem yn disgwyl i'r ddeddfwriaeth fod yn ymwybodol o anghenion ynni a seilwaith Cymru yn y dyfodol ac o newidiadau posibl mewn cymhwysedd datganoledig. Er enghraifft, mae ynni gwynt alltraeth sy'n arnofio yn debygol o gael ei ddatblygu'n gyflym yn y Môr Celtaidd yn y degawd nesaf. Yn ddelfrydol, dylai'r ddeddfwriaeth gael ei drafftio yn y fath fodd fel na fyddai angen i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol sydd â chyfrifoldeb am gynllunio allan i ddyfroedd rhyngwladol ymgymryd â darn arall o ddatblygiad deddfwriaeth sylfaenol ar hyn neu faterion eraill y gellir eu rhagweld.

Rydym yn deall y bydd llawer o'r manylion ynghylch sut y caiff y Bil ei roi ar waith yn dilyn mewn is-ddeddfwriaeth. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i dynnu sylw at arfer da o ran tryloywder drwy'r broses datblygu prosiect, ac i fynnu arfer da wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau yr effeithir arnynt. Mae'r arfer da hwn yn bodoli mewn llawer man; mae rhai enghreifftiau yn cynnwys pecyn cymorth ymgysylltu cymunedol 'Tirweddau Ynni'r Dyfodol' a ddatblygwyd gan y Ganolfan Ynni Cynaliadwy, a chanllaw 'Lleoedd i Bawb' Sustrans Scotland.

Edrychwn ymlaen at weld mwy o fanylion am sut y mae Bil Seilwaith (Cymru) yn bwriadu ymdrin â manylion prosiectau maes o law. Mae CSCC a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yn bwriadu cynnal digwyddiad ar y Bil yn ddiweddarach eleni i gasglu sylwadau manwl pellach, ac rydym yn croesawu trafodaeth gyda chi'ch hunain ar sut y gall hyn gyfrannu at y broses.

Yr eiddoch yn gywir,



**Dr David Clubb**
**Cadeirydd**
**Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru**



**Derek Walker**
**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**